

Crynodeb Annhechnegol

Beth yw'r ddogfen hon?

Dyma'r crynodeb annhechnegol o'r adroddiad amgylcheddol sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad ar y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd (CRhPLI) drafft i Gymru.

Y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd

Mae ail gylch y CRhPLI yn rhoi gwybodaeth am y mesurau y mae CNC yn cynnig eu cyflwyno i reoli'r perygl llifogydd o brif afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr, ledled Cymru, dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r CRhPLI yn cynnwys 1 amcan ac 14 blaenoriaeth sydd wedi'u datblygu gan ystyried y fframwaith a osodwyd gan Gynllun Corfforaethol drafft CNC a Strategaeth Genedlaethol Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru a'r dyletswyddau a osodwyd ar CNC gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Mae'r CRhPLI drafft yn cyflwyno 58 mesur cenedlaethol i'w cyflawni ledled Cymru a 266 mesur lleol i fynd i'r afael â'r perygl llifogydd yn y cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf o lifogydd. Cyflwynir y mesurau lleol mewn chwe phennod Lle i gyd-fynd â'r Datganiadau Ardal a hyrwyddo dull integredig weithio.

Asesiad Amgylcheddol Strategol

Cynhaliwyd Asesiad Amgylcheddol Strategol i sicrhau bod effeithiau amgylcheddol yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r CRhPLI ochr yn ochr ag ystyriaethau technegol, economaidd ac ystyriaethau eraill. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cyd-fynd yn dda ag egwyddorion Datblygu Cynaliadwy a

Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, ac felly mae'n

cael ei ddefnyddio nid yn unig i asesu effeithiau amgylcheddol y CRhPLI ond hefyd fel

offeryn gwerthfawr i ddangos sut mae'r CRhPLI yn cyflawni ac yn hyrwyddo'r canlynol:

- Y pedwar nod ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy sy'n cyfrannu at gyflawni'r amcan rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- Y blaenoriaethau cenedlaethol a osodwyd gan y Polisi Adnoddau Naturiol a'r dystiolaeth, y nodau, y tueddiadau a'r ffactorau o Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) 2020;
- Adran 6 – Y ddyletswydd bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau ac, wrth wneud hynny, yn cyfrannu at yr amcanion a'r nodau llesiant.

Ymgwymerwyd â'r gwaith cwmpasu yn ystod ngwanwyn 2022 i sicrhau bod yr asesiad yn canolbwyntio ar effeithiau sylweddol tebygol y CRhPLI. Daeth hwn i'r casgliad ei bod yn annhebygol y ceid effeithiau sylweddol ar ansawdd aer, ac felly cafodd y pwnc hwn ei hepgor o ran y cwmpas. Yn ystod y broses gwmpasu, rhoddwyd sylw hefyd i ba fesurau CRhPLI sy'n debygol o arwain at effeithiau sylweddol. Ni chafodd unrhyw fesurau eu hepgor o'r asesiad, ac mae'r holl fesurau cenedlaethol a lleol

wedi'u hystyried ar raddfa genedlaethol er mwyn adlewyrchu lefel manylder mesurau'r CRhPLI. Mae elfen ofodol y mesurau lleol wedi'i gwneud yn bosibl ystyried cyfleoedd a chyfyngiadau yn yr atodiadau Lle (E-J).

Yn ystod y gwaith cwmpasu, adolygwyd polisïau, cynlluniau, rhaglenni a deddfwriaeth berthnasol er mwyn pennu synergeddau a gwrthdaro posibl â'r CRhPLI. Cafodd crynodeb o'r wybodaeth sylfaenol sy'n berthnasol i'r CRhPLI ei ddogfennu a'i ddatblygu er mwyn pennu materion a thueddiadau allweddol. Llywiodd hyn y gwaith o ddatblygu meini prawf asesu a ddefnyddiwyd wrth asesu mesurau.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei ddatblygu'n ailadroddol gyda'r CRhPLI a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, a bydd yn cael ei gyhoeddi ar ffurf adroddiad drafft ar wahân ochr yn ochr â'r CRhPLI drafft. Mae casgliadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft wedi'u hystyried yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Crynodeb o'r effeithiau amgylcheddol sylweddol

Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi'i gynnal ar lefel uchel, sy'n briodol i raddfa genedlaethol y CRhPLI. Fodd bynnag, cyflwynir yr asesiad, sydd wedi'i grwpio o dan weithgareddau Rheoli Perygl Llifogydd, mewn modd y gellir ei gymhwyso i gynlluniau lefel is ac Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar lefel prosiect, a dylanwadu arnynt. Mae'r Atodiadau Lle yn nodi cyfleoedd a chyfyngiadau sy'n berthnasol i gyflawni mesurau yn y lleoliadau hynny, a byddant hefyd yn llywio ac yn annog dull integredig o gynllunio gwaith i sicrhau buddion lluosog.

Y boblogaeth ac iechyd dynol

Bydd yr holl fesurau cenedlaethol yn sicrhau penderfynyddion sylweddol o fuddion iechyd (ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol) o ran naill ai atal neu amddiffyn pobl ac eiddo – gan gynnwys cymunedau mwy difreintiedig ac agored i niwed – rhag perygl llifogydd, ynghyd â buddion cymunedol cyfan cysylltiedig i iechyd a llesiant.

Bydd dull cadarn a chydgyhyrchiol o arfarnu a dull sensitif o ddylunio cynlluniau sensitif yn sicrhau eu bod yn dwyn buddion i gymunedau lleol ac yn annog cyfleoedd i gymryd rhan mewn ymddygiadau iach ac egnïol er mwyn hybu iechyd a llesiant i'r eithaf, pan fo'n briodol.

Bioamrywiaeth, fflora a ffawna

Mae potensial i waith cynnal a chadw a gwella asedau rheoli perygl llifogydd a datblygu asedau newydd gael effeithiau niweidiol gan ddibynnu ar natur, graddfa a lleoliad y gweithgareddau arfaethedig. Felly mae ansicrwydd ynghylch pa mor sylweddol yw'r effeithiau. Mae'r CRhPLI yn hyrwyddo atebion sy'n seiliedig ar natur ond mae'n debygol y bydd angen gweithredu mesurau rheoli perygl llifogydd traddodiadol o hyd mewn rhai lleoliadau. Mae hefyd yn hyrwyddo gwaith adfer prosesau hydromorffolegol mewn Cyrff Dŵr a Addaswyd yn Helaeth oherwydd gweithgareddau hanesyddol rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir. Mae'r CRhPLI yn cefnogi cynlluniau addasu arfordirol a mewndirol i fynd i'r afael â chynnydd yn y perygl o lifogydd yn sgil y newid yn yr hinsawdd.

Mae'r CRhPLI hefyd yn ceisio dylanwadu ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Safon Coedwigaeth y DU (UKFS) er mwyn lliniaru'r perygl llifogydd, a gallai hyn ddwyn buddion anuniongyrchol i fioamrywiaeth, fflora a ffawna, drwy annog arferion rheoli sy'n lleihau dŵr ffo ac yn sicrhau bod mwy o ddŵr yn cael ei gadw er budd ecosystemau.

Defnydd tir, pridd, daeareg a thir halogedig

Mae potensial i waith cynnal a chadw a gwella asedau rheoli perygl llifogydd a datblygu asedau newydd gael ar arferion defnyddio a rheoli tir ac ni ellir rhagweld, ar y raddfa hon, a fyddai hyn yn fuddiol neu'n niweidiol. Byddai prosiectau a gyflawnir o dan y CRhPLI yn ystyried effeithiau defnydd tir, daeareg, pridd a thir halogedig wrth arfarnu opsiynau, a byddent yn ceisio lleihau, osgoi neu liniaru yn erbyn unrhyw effeithiau negyddol.

Byddai prosiectau arfordirol yn glynu wrth bolisi SMP2 ac yn ystyried addasu arfordirol wrth arfarnu opsiynau. Bydd addasu arfordirol yn arwain at effeithiau cymysg ar y derbynydd hwn, o ganlyniad i newid mewn defnydd tir a rheolaeth tir, a cheir effeithiau ar bridd a geomorffoleg o ganlyniad.

Adnoddau ac ansawdd dŵr

Gall cynnal a chadw, gwella a datblygu asedau newydd fod yn fanteisiol i ansawdd dŵr drwy gyfyngu ar gludiant halogion i gyrsiau dŵr ac ymwithiad halwynog i ardaloedd dŵr croyw. Fodd bynnag, gallant gael effaith niweidiol ar brosesau hydromorffolegol naturiol. Bydd asesiad o gydymffurfedd y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn dylanwadu ar waith arfarnu a chynllunio prosiectau ac mae'r CRhPLI yn hyrwyddo mesurau sy'n adfer prosesau hydromorffolegol.

Gallai dylanwadu ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Safon Coedwigaeth y DU i liniaru'r perygl llifogydd ddwyn buddion anuniongyrchol i ansawdd ac adnoddau dŵr, drwy annog arferion rheoli sy'n lleihau dŵr ffo ac yn sicrhau bod mwy o ddŵr yn cael ei gadw, gan arwain at ostyngiad mewn llygredd gwasgaredig.

Ffactorau hinsoddol

Bydd holl fesurau CRhPLI yn arwain at fanteision sylweddol o ran y gallu i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd a'r gwytnwch i'w wynebu. Mae gweithgareddau fel modelu a thelemetreg yn darparu tystiolaeth ar gyfer darogan llifogydd a chyhoeddi rhybuddion llifogydd sydd, yn eu tro, yn gwella ymwybyddiaeth ac yn annog proses o addasu ar y tir ar yr arfordir. Mae cyngor a ddarperir trwy drwyddedu a chynllunio hefyd yn atal datblygu amhriodol, gan hyrwyddo prosesau o addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Rhaid i fesurau ar gyfer cynnal, gwella a datblygu asedau rheoli perygl llifogydd newydd ystyried yr ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â gweithgareddau, dyluniadau a deunyddiau yn gynnar yn natblygiad y prosiect. Mae potensial i beirianeg galed draddodiadol i gael effeithiau negyddol o ran lliniaru'r newid yn yr hinsawdd tra gall dyluniadau sy'n ymgorffori dulliau naturiol o reoli llifogydd leihau allyriadau carbon, neu hyd yn oed fod yn fuddiol drwy atafaelu carbon.

Asedau materol

Nod mesurau'r CRhPLI yw lleihau'r perygl llifogydd a chynyddu gwytnwch asedau a seilwaith materol pwysig presennol, a'u haddasu, ac mae potensial i hyn ddwyn buddion sylweddol i gymunedau lleol a buddiannau cenedlaethol. Gallai prosiectau addasu arfordirol a seilwaith arfordirol gael effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar seilwaith arfordirol, gan gynnwys priffyrdd, rheilffyrdd a Llwybr Arfordir Cymru neu'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.

Bwriedir i fesurau'r CRhPLI sy'n ymwneud â darparu cyngor ynglŷn â thrwyddedu, cydymffurfio, gorfodi a chynllunio yw atal datblygu amhriodol ac felly atal cynnydd mewn perygl llifogydd. Bydd hyn yn sicrhau bod tai, seilwaith ac asedau materol newydd yn gynaliadwy, yn addasadwy ac yn wydn nawr ac yn y dyfodol.

Treftadaeth ddiwylliannol

Bydd mesurau'r CRhPLI yn lleihau'r perygl llifogydd i asedau treftadaeth o fewn cymunedau. Gallai fod effeithiau negyddol posibl mewn achosion lle nad yw asedau treftadaeth wedi'u lleoli mewn ardaloedd y mae buddsoddiad wedi cael ei flaenoriaethu ar eu cyfer, neu lle mae polisi SMP2 yn ei gwneud yn ofynnol addasu'r arfordir. Bydd gwella a gweithredu gwasanaeth darogan a rhybuddio am lifogydd yn fanteisiol i'r amgylchedd hanesyddol drwy ei gwneud yn bosibl i weithredwyr a pherchnogion asedau hanesyddol a diwylliannol baratoi ar gyfer digwyddiadau llifogydd, ac ymateb iddynt, gan hybu gwytnwch yn wyneb y newid yn yr hinsawdd.

Gall prosiectau ar gyfer gwella neu adeiladu asedau rheoli perygl llifogydd newydd gael effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd hanesyddol, naill ai o ran henebion hanesyddol hysbys neu adeiladau rhestredig (e.e. pontydd a choredau) neu o ran archaeoleg anhysbys.

Y dirwedd a'r morlun

Mae potensial i waith cynnal a chadw a gwella asedau rheoli perygl llifogydd a datblygu asedau newydd gael effeithiau niweidiol, gan ddibynnu ar natur a dyluniad yr atebion arfaethedig, felly mae ansicrwydd ynghylch pa mor sylweddol yw'r effeithiau.

Mae'n bosibl sicrhau effeithiau tirwedd buddiol drwy flaenoriaethu buddsoddiad mewn datrysiadau seiliedig ar natur sy'n sensitif i'r amgylchedd, ac sy'n darparu buddion tirwedd pellgyrhaeddol ar raddfa ranbarthol a chenedlaethol.

Cyfleoedd i liniaru a gwella

- Ar lefel prosiect, bydd cynnal asesiad o'r effeithiau amgylcheddol yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd Gweithredol (OGN)87, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn unol ag OGN200 ac asesiad o gydymffurfedd â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn unol ag OGN72, yn sicrhau bod unrhyw effeithiau niweidiol yn cael eu hosgoi, eu lleihau neu eu liniaru.
- Bydd integreiddio Asesiad o'r Effaith ar lechyd ar lefel prosiect yn cynnig cyfle i ddeall cymuned gyfan, a'r gwendidau cymdeithasol, er mwyn asesu'r effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y gellid eu cael ar grwpiau poblogaeth o dan gynllun ac mewn cymuned benodol.
- Mae'r Atodiadau Lle wedi nodi lle gellid gwireddu cyfleoedd lle mae cymunedau â blaenoriaeth o ran rheoli perygl llifogydd yn gorgyffwrdd â

phrosiectau a rhaglenni eraill, er enghraifft: blaenoriaethau'n ymwneud â Chyrff Dŵr a Addaswyd yn Sylweddol (HMWB), Adfer Afonydd a gwella cynefinoedd/llwybrau pysgod.

- Gan weithio gyda phrosesau naturiol, dylai gwaith dylunio amgylcheddol da ar brosiectau a dulliau sensitif o gyflawni gweithgareddau cynnal a chadw anelu at wella canlyniadau o ran bioamrywiaeth, cadernid ecosystemau, hydromorffoleg, dal a storio carbon / lleihau allyriadau a'r dirwedd.
- Mae potensial i atebion sy'n seiliedig ar natur a mesurau sy'n dylanwadu ar arferion rheoli tir ddwyn buddion posibl o ran rheoli pridd a thir. Byddai mesurau i leihau dŵr ffo yn amddiffyn pridd rhag erydu a'i gadw'n llaith, gan ei atal rhag dysychu ar adegau poethach y flwyddyn.
- Fel arfer, n ystod y cam cychwynnol o asesu prosiectau, ceisir cyngor ynglŷn â sgrinio gan yr Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gymreig berthnasol er mwyn sicrhau y gellir arfarnu'r prosiect a'i ddylunio mewn ffordd sy'n sicrhau na cheir effaith ar yr amgylchedd hanesyddol.

Effeithiau cronol y CRhPLI

Ystyriwyd nifer o strategaethau a chynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol o safbwynt effeithiau cronol. Mae'r CRhPLI yn cyd-fynd â strategaethau Llywodraeth Cymru, ac yn eu hategu, megis Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a Dyfodol Cymru: Cynllun Cenedlaethol 2040. Mae CNC wedi gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i ddatblygu'r CRhPLIau yn nalgylchoedd trawsffiniol afon Dyfrdwy ac afon Hafren ac ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau cronol o'u gweithredu.

Mabwysiadwyd trydydd cylch Cynllun Rheoli Basn Afon (RBMP) Gorllewin Cymru a Chynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy ym mis Gorffennaf 2022. Mae trydydd cylch y Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn cynnwys mesurau cenedlaethol sy'n ategu mesurau cenedlaethol y CRhPLI ac felly ni ragwelir effeithiau cronol. Fodd bynnag, mae'n bosibl cael effeithiau cadarnhaol o ganlyniad i gyflawni prosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y ddau gynllun.

Opsiynau amgen rhesymol

Mae'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad amgylcheddol gynnwys gwerthusiad o effeithiau sylweddol tebygol y CRhPLI ac opsiynau amgen rhesymol.

Mae'r opsiynau amgen a ystyriwyd gan CNC fel a ganlyn:

1. ei gyflawni ar raddfa Ardal Basn Afon, yn yr un modd â'r cylch cyntaf
2. Ei gyflawni ar raddfa Cymru gyfan a chanolbwyntio ar lifogydd o'r môr, prif afonydd a chronfeydd dŵr
3. Ei gyflawni ar raddfa Cymru gyfan a'i integreiddio â'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol fel ei fod yn cynnwys llifogydd o ddŵr wyneb a chyrsgiau dŵr cyffredin

Dewiswyd opsiwn amgen 2 er mwyn symud tuag at lunio CRhPLI ar lefel Cymru gyfan ar gyfer yr ail gylch. Ers y cylch cyntaf, cyflwynwyd Deddf yr Amgylchedd

(Cymru) 2016. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i CNC Iunio Datganiadau Ardal yn nodi sut y byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Sefydlodd y broses hon saith ardal ledled Cymru. Er mwyn gwreiddio cyfleoedd ar gyfer cynllunio a chyflawni mewn modd integredig, penderfynwyd y dylid datblygu'r CRhPLI ar ddwy raddfa, sef mesurau cenedlaethol sy'n berthnasol ledled Cymru a mesurau lleol ar gyfer Ardaloedd Perygl Llifogydd sy'n cyd-fynd â'r chwe ardal ddaearol/arfordirol (y seithfed ardal yw'r Datganiad Ardal Morol).

Ystyriwyd dewisiadau eraill hefyd, ar lefel mesurau, ar ôl rhoi sylw i'r canlynol:

- ffynhonnell a difrifoldeb y perygl;
- y prosesau rheoli perygl sydd eisoes ar waith;
- sut y gallai'r perygl newid yn y dyfodol;
- beth yw'r opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r perygl.

Dewiswyd y mesur mwyaf priodol ar ôl ystyried yr holl ffactorau hyn. Ar raddfa cyflawni prosiect, bydd dichonoldeb technegol, y gost, yr effeithiau amgylcheddol a ragwelir ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys cymunedau lleol, yn llywio'r gwaith o nodi, gwerthuso a dewis opsiynau.

Monitro effeithiau sylweddol y CRhPLI

Mae'r syniad o fonitro effeithiau sylweddol y CRhPLI wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn a bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach yn dilyn ymgynghoriad. Mae'r dangosyddion monitro arfaethedig yn cynnwys iechyd y boblogaeth ac iechyd dynol, bioamrywiaeth, dŵr, ffactorau hinsoddol ac asedau materol. Bydd y cynigion ar gyfer monitro yn cael eu cyhoeddi yn y Datganiad o Fanylion Amgylcheddol ochr yn ochr â'r CRhPLI a fabwysiedir.